YSGOL GYMRAEG
CADW IAITH CADW GWLAD
BRYN Y MÔR


# Tymor y Gwanwyn 2023

## Dosbarth y Gragen

## Bant â ni i gynllunio!

Ein bwriad yn yr uned ddysgu hon yw ysgogi'r dysgwyr i ymholi a darganfod, i fod yn chwilfrydig ac i gwestiynu, wrth ddysgu am ddiwylliant Cymru a diwylliannau gwledydd eraill ar draws y byd. Hyderwn y bydd gwerthfawrogi ein hunaniaeth a'n treftadaeth yn gymorth i greu ymdeimlad o hunan ac o berthyn ac yn ein cymell i werthfawrogi'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhyngom ni a'r byd ehangach. Gobeithiwn ddatblygu ffordd greadigol a newydd o feddwl, gyda'r dysgwyr yn cael y cyfle i ddarganfod sut y gellir defnyddio'r celfyddydau mynegiannol i ffurfio a mynegi hunaniaeth bersonol, gymdeithasol a diwylliannol. Wrth ymwneud â'r broses greadigol, bydd ein dysgwyr yn derbyn y cyfle i drawsnewid eu syniadau i mewn i waith sydd â gwerth diwylliannol, yn ogystal â defnyddio eu sgiliau creadigol i gyd-weithio er mwyn cyflawni'r nod ar ddiwedd yr uned ddysgu. Trwy hyn i gyd, gobeithiwn feithrin ymdeimlad o falchder yn ein dysgwyr, a fydd hefyd yn cyfrannu at eu lles personol.

Sut mae gweldydd eraill yn dathlu?
Ava




Pan ydyn ni'n dathlu?
Macsen

Creu dawns am ddathliad!
Pawb

Beth am ddathlu ein penblwyddi?!
Pawb

Pryd mae Blwyddyn Newydd Tsieiniaidd?
Harriet

Pa ddathliadau sy'n digwydd yng Nghymru?
Elis

# Thema'r tymor yw: Hip. Hip Hwrê!

Dyma ein syniadau ar gyfer y tymor!

Cofiwch edrych yn adran y plant – tudalennau dosbarth ar wefan yr ysgol am fwy o fanylion!
www.yggbrynymor.co.uk
Dilynwch ni ar 'trydar' hefyd!
@YGGBrynymor1

**Iechyd a Lles**

- Ymarfer a datblygu ein sgiliau corfforol a pharhau i wella ein ffitrwydd.
- Ymarfer sgiliau llawdriniol manwl
- Trafod sut y gallwn gadw ein cyrff yn iach.
- Parhau i ddysgu sut i gadw'n ddiogel ar y we a dysgu sut i ddanfon cyfathrebiad ar-lein syml.
- Trafod effaith dathliadau ar deimladau a'n lles emosiynol.
- Deall bod pobl yn gwerthfawrogi pethau gwahanol a dayblygu ymdeimlad o hunaniaeth.

**Y Celfyddydau Mynegiannol**

Astudio dawnsfeydd sy'n cael eu perfformio mewn gwyliau neu garnifalau. Dysgu symudiadau. Mwynhau perfformio.

Dysgu caneuon newydd, gwrando ar gerddoriaeth garnifal a chwarae patrymau syml ar offerynnau taro.

**Y Dyniaethau**

Dysgu am ystod o wyliau a dathliadau yng Nghymru ac o gwmpas y byd.
Mwynhau'r syniad o berthyn i'n cymuned leol ac i Gymru.
Mwynhau darganfod ynglŷn â sut y mae pobl mewn gwahanol lefydd yn y byd yn byw.
Adnabod tebygrwydd a gwahaniaethau rhwng Cymru a gwledydd eraill.
Dysgu am hanes Gŵyl Eid a Gŵyl y Pasg.

**Gwyddoniaeth a Thechnoleg**

Dylunio a chreu mwgwd carnifal ar gyfer dathliad arbennig.

Datblygu ein sgiliau codio drwy roi cyfarwyddiadau i degan rhaglenadwy neu gan ddefnyddio rhaglen godio ar y cyfrifiadur.

Bydd gwaith cartref mathemateg ar nos Iau neu nos Wener yn cael ei rannu trwy'r cyfrif Hwb ar J2pdf. Bydd geirfa i'w dysgu ar ddydd Gwener a byddwn yn cael prawf sillafu bach ar y dydd Gwener canlynol.

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

Creu cornel chwarae 'Siop Lluniau Llon' a mwynhau gwisgo i fyny, trafod arian a bod yn ffotograffwyr proffesiynol!

Darllen a gwrando ar amrywiaeth o straeon a llyfrau ffeithiol.

Dal ati i ddatblygu ein sgiliau darllen.

Mwynhau ysgrifennu mewn pob math o ddulliau gwahanol, gan gynnwys **gwahoddiad, cerdd acrostig**.

Parhau i ymarfer ein sgiliau sillafu a dysgu ffurfio llythrennau yn gywir.

**Mathemateg a Rhifedd**

Ymarfer cyfrif, darllen, ysgrifennu a threfnu rhifau.
Ymarfer a gwella sgiliau adio a thynnu, cyfri mewn camau, lluosi a rhannu.
Defnyddio arian ac ymarfer rhoi newid.
Datblygu ein sgiliau darllen y cloc.
Chwarae llawer o gêmau mathemateg pen a mwynhau datrys problemau.

**Ymweliadau/Profiadau**

Cymryd rhan mewn gweithdy dawns.

Y Cywaith Cloi

Cynllunio a threfnu dathliad ein hunain!